# SL(5)675 – Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020

## Cefndir a Diben

Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("Gorchymyn 2007") yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau i Senedd Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2007 i adlewyrchu newidiadau polisi a deddfwriaethol sydd wedi digwydd ers etholiad cyffredinol y Senedd yn 2016 i baratoi at etholiad cyffredinol y Senedd yn 2021.

Yn benodol, mae'r Gorchymyn hwn:

- yn gweithredu newidiadau sy'n codi o ganlyniad i'r newid enw, estyn yr etholfraint a'r meini prawf anghymhwyso a gyflwynwyd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020,
- yn rhoi'r opsiwn i ymgeiswyr beidio â chyhoeddi eu cyfeiriad cartref yn etholiadau'r Senedd,
- yn gwneud newidiadau i'r modd y gwneir taliad i swyddogion canlyniadau ar gyfer gwasanaethau a roddwyd.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae'r diffiniad a fewnosodir gan erthygl 3(3) yn cyfeirio at "*the* Senedd Cymru" [*ychwanegwyd y pwyslais*]. Mae'n ymddangos bod cynnwys y fannod bendant yn anghywir, gan fod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cyfeirio at "Senedd Cymru" drwyddi draw, heb "the" cyn hynny.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae erthyglau 43(b) a 44(2)(a)(ii) yn cyfeirio at adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn y ddau achos, nodir pennawd adran 16 fel "(disqualification from being Senedd member)" ond mae'r pennawd, mewn gwirionedd, yn nodi "(disqualification from being a Member of

the Senedd)". Gwneir yr un gwall hefyd yn y paragraff cyntaf ar dudalen 3 o'r Nodyn Esboniadol.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae erthygl 53(9) yn addasu erthygl 23(8) o Orchymyn 2007 drwy roi "Welsh Ministers" yn lle "Assembly" ym mhob lle y mae’n digwydd. Fodd bynnag, mae’r achos cyntaf o "Assembly" ym mharagraff (8) yn ymwneud ag etholiadau'r Cynulliad.

Effaith y ddarpariaeth fel y'i drafftiwyd yw bod rhan o eiriad paragraff (8) yn darllen "*a returning officer’s charges at an Welsh Ministers election [sic]*".

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu’r drafft**.

Yn y fersiwn Gymraeg o’r Gorchymyn, mae erthygl 3 wedi ei rhifo'n anghywir, ac felly mae'n anghyson â'r rhifo yn erthygl 3 o'r fersiwn Saesneg.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Mae Atodlen 10 (atodiad o ffurflenni) i Orchymyn 2007 yn cynnwys ffurflenni Cymraeg a Saesneg. Gofynnwn pam mai dim ond y ffurflenni Saesneg y mae’r fersiwn Saesneg o’r Gorchymyn hwn yn eu diwygio, ac mai dim ond y ffurflenni Cymraeg y mae’r fersiwn Gymraeg yn eu diwygio, gan fod y ffurflenni yn y ddwy iaith wedi eu cynnwys mewn un offeryn. Gallai ymddangos i'r darllenydd mai dim ond mewn un iaith y caiff y ffurflenni eu diwygio, gan ddibynnu ar y fersiwn y maent yn ei darllen.

Mae'r Pwyllgor yn nodi, er bod erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn datgan y gwneir y diwygiadau i’r testun Cymraeg a Saesneg o’r ffurflenni, nad yw erthyglau 39, 47 a 57 yn cynnwys datganiadau tebyg i'r perwyl hwnnw.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei gynnal. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Mae'r diwygiadau hyn yn seiliedig yn bennaf ar bolisïau sydd eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad a dadl o sylwedd. Lle ystyriwyd y polisïau yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a*

*Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), a gan na chafwyd unrhyw dystiolaeth wahanol neu ychwanegol, nid oeddem o'r farn bod angen cynnal yr asesiadau hynny eto.*"

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cynnwys, yn y Memorandwm Esboniadol, lincs i'r Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a grybwyllir uchod, gan fod hyn yn rhoi cymorth defnyddiol i'r darllenydd.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwyntiau adrodd technegol a'r pwynt adrodd rhinweddau cyntaf.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**2 Rhagfyr 2020**